**EXD568(BT)(W)**

Llywodraeth Cymru

Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 O.S. 2008/1090 (Cy. 116)
(fel y'i diwygiwyd) – Rheoliad 19

# Brechlyn anfyw Tafod Glas 3: Trwydded Gyffredinol ar gyfer Defnyddio Brechlyn Anfyw Tafod Glas 3 yng Nghymru

Yn berthnasol i Gymru yn unig

Yn ddilys o: 3pm 28 Chwefror 2025

Yn unol â Rheoliad 19(1) o Reoliadau Tafod Glas (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) ("Rheoliadau 2008"), mae'r Gweinidogion Cymru yn rhoi'r drwydded gyffredinol hon, ar yr amod y cydymffurfir â'r amodau yn yr Atodlen.

1. Mae'r drwydded hon yn caniatáu brechu anifeiliaid cnoi cil neu gamelidau yn unol â Rheoliad 19(1) o Reoliadau 2008 â brechlyn anfyw tafod glas 3, cyn belled â bod y brechlyn wedi cael y canlynol:
    a. awdurdod marchnata gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol; neu
    b. trwydded gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Atodlen 4 (4) o Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2013.

2. Mae asesiad risg penodol wedi'i gynnal yn unol â rheoliad 19 (4) o Reoliadau 2008.

3. Mae'r drwydded gyffredinol hon yn berthnasol yng Nghymru yn unig.

4. Bydd yr Weinidogion Cymru yn cael diwygio, atal neu ddirymu'r drwydded hon yn ysgrifenedig unrhyw bryd.

Llofnodwyd gan: Richard Irvine, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru

Awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru

Dyddiad: 28 Chwefror 2025

# Rhestr Amodau:

1. Milfeddyg preifat fydd yn rhoi'r brechlyn, neu caiff ceidwad yr anifail roi'r brechlyn tafod glas 3 sydd wedi'i ragnodi cyn belled â'i fod yn gwneud hynny yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a chyfarwyddyd y milfeddyg.
2. Ni chaiff yr unigolyn sy'n rhoi'r brechlyn o dan y drwydded hon frechu'r anifeiliaid ond â'r brechlyn tafod glas 3 sydd wedi'i ragnodi gan y milfeddyg sydd fel arfer yn gyfrifol am ofalu am yr anifeiliaid.
3. Rhaid cadw cofnodion ysgrifenedig neu ddigidol o bob anifail sy'n cael ei frechu a rhaid eu dangos i arolygydd pan ofynnir amdanynt. Rhaid i'r ceidwad gadw'r cofnod am o leiaf bum mlynedd a rhaid iddo gynnwys y canlynol:
    a. Y rhywogaeth sy'n cael ei brechu,
    b. Rhif adnabod parhaol yr anifail unigol (tag clust neu farc adnabod swyddogol parhaol arall),
    c. Dyddiad y dos cyntaf,
    d. Dyddiad unrhyw ddos arall,
    e. Enw'r brechlyn a rhif y batsh,
    f. Enw a theitl swydd y person sy'n rhoi'r brechlyn,
    g. Faint o ddos a roddir (ml),
    h. Dull brechu (h.y. yn y cyhyr neu o dan y croen),
    i. 'Cyfnod cadw o'r gadwyn fwyd' y brechlyn,
    j. Unrhyw ddosau sydd dros ben a faint (ml) sydd i'w ddychwelyd yn unol ag amod 6 isod.
    k. CPH a chyfeiriad y daliad lle cafodd y brechlyn ei roi.
4. Ceidwad yr anifeiliaid sy'n gyfrifol am wneud a chadw cofnod cywir yn unol ag Amod 3.
5. Yn ogystal â chadw cofnod (ysgrifenedig neu ddigidol) fel sy'n ofynnol o dan amodau 3 a 4, rhaid i'r trwyddedai gyflwyno hefyd gofnod digidol o'r brechiad, gan gydymffurfio â'r gofynion yn amod 3 a defnyddio'r gwasanaeth ar-lein i gofnodi'r defnydd o'r brechlyn BTV yng Nghymru. Rhaid gwneud hyn cyn gynted â phosibl a dim mwy na 48 awr ar ôl i'r anifail gael ei frechu.
6. Rhaid i unrhyw berson sydd â brechlyn BTV3 yn ei feddiant storio'r brechlyn yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.
7. Rhaid i'r ceidwad anifeiliaid sicrhau bod yr holl ddosau sydd dros ben (wedi'u hagor a heb eu hagor) yn cael eu dychwelyd i'r milfeddyg a wnaeth eu rhagnodi.
8. Os gwelir bod sgîl-effeithiau andwyol yn gysylltiedig â'r brechlyn, gan gynnwys os oes amheuon nad yw'n gweithio, rhaid i geidwad yr anifeiliaid roi gwybod o fewn 7 diwrnod calendr o weld am y tro cyntaf yr effeithiau andwyol i'r cwmni fferyllol perthnasol (a nodir ar daflen y pecyn) neu'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol. (Rhoi gwybod am broblem â meddyginiaeth neu ficrosglodyn anifail: https://www.gov.uk/report-veterinary-medicine-problem).

**Nodiadau:**

1. Mae'r drwydded gyffredinol yn caniatáu defnyddio yn unig frechlynnau y caniateir neu yr awdurdodir eu rhoi yng Nghymru.
2. Rhaid i'r anifeiliaid sydd wedi'u brechu gadw at yr un rheolau symud a rheoliadau'r tafod glas ag anifeiliaid sydd heb eu brechu.
3. Ystyr "Milfeddyg" yw person sydd â'r cymwysterau priodol sydd wedi'i gofrestru gyda Choleg Brenhinol y Milfeddygon (RCVS)
4. Ystyr "anifail" yw anifail cnoi cil neu gamelid. Mae anifeiliaid cnoi cil yn cynnwys ymhlith eraill gwartheg, defaid, geifr a cheirw. Mae camelidau yn cynnwys camelod, lamas ac alpacas.
5. Os ydych chi'n credu bod yna achos o glefyd hysbysadwy, rhaid rhoi gwybod ar unwaith i:
    a. Yng Nghymru – Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ar 0300 303 8268
6. Nid oes unrhyw beth yn y drwydded hon sy'n eich rhyddhau o'ch rhwymedigaeth i gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol.
7. Cysylltwch â'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) drwy'r manylion uchod neu'ch Awdurdod Lleol (ALLI) i gael rhagor o wybodaeth am fesurau bioddiogelwch ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall.
8. I weld yr holl ddeddfwriaeth ar y Tafod Glas, ewch i: Rheoliadau Tafod Glas (Cymru) 2008.
9. Am 7 niwrnod ar ôl eu brechu, peidiwch â rhoi profion cyn symud ar anifeiliaid sydd wedi'u brechu, hynny rhag cael canlyniad positif ffug.
10. Rydym yn esbonio sut y byddwn yn defnyddio eich data personol yn hysbysiad preifatrwydd cofnodi brechiadau'r tafod glas (BTV).

**Bydd unrhyw berson sy'n torri amodau'r drwydded hon a wnaed o dan Reoliadau'r Tafod Glas 2008 (fel y'i diwygiwyd) yn cyflawni trosedd ac o'i gael yn euog mewn llys ynadon, gallai gael dirwy na fydd yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol neu gyfnod o garchar na fydd yn fwy na 3 mis, neu'r ddau.**